
**Bob mis byddwn yn canolbwyntio ar awdur ysbrydoledig sy'n byw yng Nghymru neu'n ysgrifennu am Gymru! Cewch gyflwyniad i'w llyfr diweddaraf, beth sy'n eu hysbrydoli i ysgrifennu, ac unrhyw gyngor sydd ganddynt i ysgrifenwyr ifanc!**

# Dod i adnabod

# Iola Ynyr




## Crynodeb:

Dyma gyfres o ysgrifau hunangofiannol sydd yn gwibio trwy atgofion ond yn rhoi lle i'r dychymyg blethu lliw hefyd. Mae yr ysgrifau yn cynnwys straeon o blentyndod Iola hyd at y presennol gan ddychmygu yr hyn sydd eto i ddod. Mae y gyfrol yn wynebu tristwch a heriau yn onest, ond hefo argyhoeddiad bod yna gariad yn llechu yn y tywyllwch.



## Bywgraffiad

Mae Iola yn artist llawrydd sydd yn arbenigo mewn gwaith theatr a digidol fel cyfarwyddwraig, dyfeiswraig ac awdur ynghyd â chynlluniau cyfranogi gyda grwpiau lleiafrifol. Bu'n Gyfarwyddwraig Artistig i Gwmni'r Frân Wen am bum mlynedd ar hugain. Mae ganddi dri o blant, Erin, Mared a Gruff ac yn byw yng Nghaernarfon gyda Huw.

**Fel person ifanc, pwy neu beth wnaeth ddylanwadu arnat?**

Fy ffrindiau oedd yn driw, yn gryf ac yn llawn syniadau am wleidyddiaeth,heddwch a hawliau merched. Cerddoriaeth Y Brodyr, Geraint Jarman a Caryl Parry Jones a wnaeth berfformio yn yr ysgol hefo Bando yn llawn hyder, talent ac wedi gwisgo'n drawiadol. *Dyddiadur Anne Frank*, *Straeon Bob Lliw* a Roots. *Tales of the Unexpected* oedd wastad yn fy machu a fy nychryn i ar y teledu a *Minafon* a *Minder*.

**Beth yw dy ddylanwadau nawr?**

Fy mhlant, fy mhartner ac unigolion sy'n byw trwy chwilfrydedd nid ofn ac artistiaid a chyfranogwyr dewr a mentrus dwi'n cydweithio hefo nhw.

**Pryd ddest ti'n ymwybodol dy fod eisiau sgwennu, oedd unrhyw ffactorau arbennig wedi cael effaith?**

Roedd byw yn y byd dychmygol yn dod yn naturiol i mi fel unig blentyn ac mi wnes i ddechrau mwynhau ysgrifennu'n greadigol yn yr ysgol uwchradd. Roedd hi'n ryddhad gallu mynegi fy hun pan oedd cyfathrebu wyneb yn wyneb yn gallu bod yn heriol. Mae cefnogaeth Llenyddiaeth Cymru dros y blynyddoedd diwethaf wedi bod yn allweddol i feithrin fy hyder i ysgrifennu.

**Beth yw dy hoff genres darllen, a pha lyfrau wyt yn darllen ar hyn o bryd?**

Dwi wrth fy modd hefo unrhyw ffurf a newydd orffen *The Goldfinch* gan Donna Tartt oedd yn wirioneddol wych. Mae gen i wastad sawl llyfr wrth ochr fy ngwely a dwi›n pigo nôl a mlaen ohonyn nhw. Dwi wedi gwirioni ar gyfrol o farddoniaeth clare e. potter, *Healing the Pack*, ac yn troi ati i ryfeddu at y delweddau trawiadol a gwirionedd a deallusrwydd plentyn.

**Pa awgrymiadau sydd gyda ti i annog plant a phobl ifanc i ddarllen mwy er pleser?**

Rho gyfle i lyfr sy'n gallu bod yn chwithig ar y dechrau a pâid a theimlo'n annifyr am beidio â gorffen llyfr chwaith. Dos i chwilio am ddelweddau sydd yn dy tynnu ac mae'n iawn cael llyfr wrth dy ymyl heb ddarllen dim. Mi wnei di elwa wastad wrth fod yn agos at lyfrau heb i ti ddallt. Ac os na ffeindi di lyfr ti'n mwynhau, sgwenna'r llyfr 'rwyt ti'n awchu amdano.



**Rho ddyfyniad sydd wrth wraidd dy fywyd di ...**

Mae yna harddwch ym mhob dim a mae gen ti hawl i dy ddiogelwch.

www.ylolfa.com

Llyfrgelloedd Cymru
Cael mwy o'ch llyfrgell

... mwy C&A ar wefan llyfrgelloedd.cymru